Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Tramshed Tech, Stryd Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH

**Future Generations Commissioner for Wales**
Tramshed Tech, Pendyris Street
Caerdydd, CF11 6BH

Trwy e-bost

18 Chwefror 2026

Annwyl gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol,

Ysgrifennaf i ddarparu rhagor o wybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 9 Chwefror 2026. Rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i gryfhau ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r adroddiad yn wreiddiol ar 25 Gorffennaf 2025 trwy ddatganiad ysgrifenedig. Yn dilyn hynny, darparodd Llywodraeth Cymru eu hymateb i'r argymhellion, y mae'r Pwyllgor wedi'u gweld fel rhan o'u papurau ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar 1 Rhagfyr 2025.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i'r argymhellion gyda gwrthodiadau bach iawn. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd lle'r oeddwn yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau pellach yn eu rôl arweinyddiaeth a gwneud mwy i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif. O'r herwydd, mae fy nhîm a minnau wedi cael sgyrsiau adeiladol gydag Ysgrifenyddion y Cabinet a swyddogion ar yr ymateb cychwynnol hwn.

Mewn rhai achosion, roedd Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar unwaith. Er enghraifft, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ysgrifennu at bob corff cyhoeddus yn eu hannog i gynhyrchu strategaeth gwirfoddoli sefydliadol (A27). Newidiodd Llywodraeth Cymru hefyd eu hymateb o "ddim yn berthnasol" i "derbyn mewn egwyddor" i'r argymhelliad bod cyfrifoldeb am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn parhau gyda'r Prif Weinidog (A3).

Fel arall, rwyf wedi darparu sylwadau pellach yn ddiweddar ar ble rwy'n credu y gellid cryfhau eu hymateb. Er enghraifft:

- Rwy'n herio'r Llywodraeth ar eu hymateb i'r argymhellion sy'n ymwneud ag atal. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn arwain y ffordd ar wariant ataliol a rhoi atal wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu newydd. Dylent fod yn rhoi cymhellion i gyrff cyhoeddus ac yn dwyn sefydliadau'r GIG i gyfrif. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn ceisio ymateb cryfach gan Lywodraeth Cymru ar argymhellion a wnaed yn ei adroddiad yn 2025 ynghylch buddsoddi mewn atal.
- Ar fy argymhellion sy'n ymwneud â'r gyllideb (A44-47), rwyf wedi pwyso ar y Llywodraeth i newid eu safbwynt ar glustnodi cyllid ar gyfer atal (ar hyn o bryd "wedi'i wrthod"). Rwyf hefyd wedi gofyn i Lywodraeth Cymru fapio eu cyllidebau yn erbyn y nodau lles a'r dangosyddion cenedlaethol - elfen bwysig o fodel fframwaith lles unrhyw genedl sydd ar goll yn null Cymru er gwaethaf inni arwain ar elfennau eraill.
- Dim ond "mewn egwyddor" y mae Llywodraeth Cymru wedi'i "derbyn" yr argymhelliad i bob corff cyhoeddus ddefnyddio'r diffiniad cytunedig o atal i fapio eu gwariant (A47).

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Tramshed Tech, Stryd Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH

**Future Generations Commissioner for Wales**
Tramshed Tech, Pendyris Street
Caerdydd, CF11 6BH

Mae ymateb Llywodraeth Cymru wedi'i gyfiawnhau ar y sail eu bod am hyrwyddo dull hyblyg. Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru gryfhau eu hymateb gan nad yw fy argymhelliad yn atal dull hyblyg. Bwriedir iddo roi gwelededd a meintioli gwariant ataliol, yn ogystal â darparu llinell sylfaen y gellir ei holrhain dros amser.

- Rwyf wedi argymell y dylai cyrff cyhoeddus uwchsgilio'r timau yn 'meysydd corfforaethol newid' eu sefydliadau (A4). Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru nid yn unig wneud hyn eu hunain ond parhau i gyflwyno a gweithredu polisi a deddfwriaeth sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyn o beth - er enghraifft, mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael yn newid sut rydym yn gwario arian cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn darparu cymhellion eraill a dwyn cyfarwyddwyr cyllid, rheolwyr perfformiad a swyddogion corfforaethol eraill ar draws pob corff cyhoeddus i gyfrif am gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae argymhelliad 7 o fy adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith defnydd tir a morol integredig. Rwyf wedi rhoi adborth nad yw eu hymateb cychwynnol yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ac wedi datgan y dylid datblygu'r fframwaith yn unol ag adolygiad Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn 2027.
- Mae Argymhelliad 12 yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu gwydnwch hinsawdd, budd net i fioamrywiaeth, a lleihau plaladdwyr yn y ffordd y maent yn rheoli eu hystadau, gan gynnwys eu hadeiladau, ffermydd tenant, parciau, ymylon ffyrdd ac asedau tir eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn hyn, gan ddatgan y byddant yn ei gynnwys yn eu Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus. Ond rwyf wedi datgan y byddwn yn hoffi gweld y materion hyn yn cael eu hymgorffori'n llawn yn strategaeth asedau'r Llywodraeth ei hun.
- Rydym wedi awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn newid eu hymateb i "dderbyn" neu "fabwysiadu" (yn hytrach na "derbyn mewn egwyddor") i argymhelliad 16 y dylai Cymru ddod yn Genedl Marmot. Nid yw'n glir pam nad yw'r argymhelliad hwn wedi'i fabwysiadu'n llawn.
- Rwyf wedi gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet wneud datganiad ar y cyd ar gyrff cyhoeddus yn llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd (A26). I ddechrau, roedd ymateb i'r argymhelliad hwn ar goll o ymateb Llywodraeth Cymru – efallai oherwydd ei fod wedi'i anelu at gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hwn yn enghraifft o ble y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gweld ei hun fel corff cyhoeddus yn ogystal â dangos ei rôl arweinyddiaeth wrth ysgogi eraill i weithredu.
- O ran annog achrediad Cyflog Byw Go Iawn yn y sector preifat (A28), rwyf wedi awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi momentwm pellach drwy nodi'r sectorau gorau yn yr economi sydd â'r bwlch mwyaf mewn achrediad a datblygu cynllun gweithredu ffocws, gyda phartneriaid, i hyrwyddo'r Cyflog Byw Go Iawn yn y sectorau hyn.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Tramshed Tech, Stryd Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH

**Future Generations Commissioner for Wales**
Tramshed Tech, Pendyris Street
Caerdydd, CF11 6BH

Mae fy nhîm wedi cynnig darparu briffiau a gweithio ar y cyd ar nifer o'r argymhellion.

Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ymateb pellach i'r adroddiad maes o law.

Yn gywir,

D. Walker

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru